

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi crynodeb o'r rhaglenni a gynigir o fis Medi 2019. A fyddech cystal â nodi y gallai'r rhain gael eu haddasu a'u newid yn y dyfodol. Ymgynghorir â myfyrwyr. Er mwyn symud drwy'r cwrs bydd angen i'r myfyrwyr fel arfer basio pob modiwl ac ennill 140 credyd.

Rhan 1	Rhan 2
Y Gweithiwr Opera Proffesiynol 1 20 credyd	Sgiliau Répétiteur 2 20 credyd
Sgiliau Répétiteur 1 20 credyd	Lleoliad Proffesiynol (Répétiteur) 20 credyd
Perfformio Opera (Répétiteur) 1 40 credyd	Y Gweithiwr Opera Proffesiynol 2 20 credyd

Y Gweithiwr Opera Proffesiynol 1

Credydau: 20

Asesiad: Portffolio (50%); Perfformiad (50%)

Drwy gyfres o seminarau, bydd y modiwl hwn yn rhoi trosolwg o ddatblygiad opera, gan gynnwys dylanwadau cymdeithasol a gwleidyddol, newid mewn arddull gerddorol, materion dramatig/libreto, datblygiadau mewn arddull cynhyrchu a'r system "fach". Cyflwynir offer myfyrio er mwyn galluogi'r myfyrwyr i werthuso a chrisialu eu llwybr dysgu ar draws y rhaglen. Gan adeiladu ar wybodaeth gyd-destunol a geir o'r gyfres o seminarau, bydd elfen ymarferol y prosiect yn canolbwyntio ar gael dealltwriaeth ddofn o heriau cyflwyno adroddgan mewn opera, ar draws amrywiaeth o gyfansoddwyr, arddulliau ac ieithoedd. Cyflwynir hyn drwy sesiynau gweithio, hyfforddiant, llwyfannu gwaith a pherfformiad cyfansymiol. Bydd y gweithiau a ddewisir yn adlewyrchu potensial pob myfyriwr ac, i raddau llai, uchelgeisiau. Dewisir gweithiau drwy drafodaeth rhwng y myfyriwr, tiwtor a'r Pennaeth Adran. Addysgir yr elfennau gwybodaeth gyd-destunol ac ymwybyddiaeth o ofynion arddull yn ymwneud â'r repertoire a ddewiswyd mewn gwersi unigol a'u datblygu drwy ymchwil ac ymarfer personol.

Sgiliau Répétiteur 1

Credydau: 20

Asesiad: Asesiad Ymarferol (100%)

Sgiliau Répétiteur 2

Credydau: 20

Asesiad: Asesiad Ymarferol (100%)

Bydd y modiwl hwn yn rhoi'r gallu i'r myfyrwyr ddatblygu a chyfuno'r sgiliau technegol, arddulliadol, artistig a deallusol sy'n sail i bob perfformiad fel répétiteur ar lefel uwch. Cefnogir hyfforddiant Prif Astudiaeth a sesiynau hyfforddi cysylltiedig gyda dosbarthiadau lle caiff y grefft o gyfeilio a pharatoi ar gyfer opera ei hymarfer a cheir cyfle i fyfrio ar hyn. Datblygir ystod lawn o sgiliau allweddellau sy'n

benodol i waith répétiteur proffesiynol mewn cyfres o ddsbarthiadau, ac astudir Eidaleg, Almaeneg a Ffrangeg ar y cyd â'r cantorion sydd ar y cwrs MA Opera. Anogir datblygiad sgiliau hyfforddi drwy gysgodi hyfforddwyr yn y Coleg, gan arwain répétiteurs sy'n fyfyrwyr i ymgysylltu'n annibynnol mewn hyfforddiant a pharatoad cerddorol cantorion. Cynigir hefyd gyfleoedd ar gyfer paratoi gwaith llwyfan a chorawl, lle bo angen gweithgareddau o'r fath o fewn cynyrchiadau opera'r Coleg, ac efallai y datblygir sgiliau yr arweinydd cynorthwyol pan fo hynny'n briodol i gryfderau a diddordebau gyrfa'r myfyrwyr.

Perfformio Opera (Répétiteur) 1

Credyd: 40

Asesiad: Asesiad Ymarferol (60%); Asesiad Parhaus (40%)

Perfformio Opera (Répétiteur) 2

Credydau: 40

Asesiad: Asesiad Ymarferol (40%); Asesiad Arwain (30%); Asesiad Parhaus (30%)

Bydd y modiwl hwn yn rhoi'r gallu i'r myfyrwyr ddatblygu a chyfuno'r sgiliau technegol, arddulliadol, artistig a deallusol sy'n sail i bob perfformiad fel répétiteur ar lefel uwch. Cefnogir hyfforddiant Prif Astudiaeth a sesiynau hyfforddi cysylltiedig gyda dosbarthiadau lle caiff y grefft o gyfeilio a pharatoi ar gyfer opera ei hymarfer a cheir cyfle i fyfyrwyr ar hyn. Datblygir ystod lawn o sgiliau allweddellau sy'n benodol i waith répétiteur proffesiynol mewn cyfres o ddsbarthiadau, ac astudir Eidaleg, Almaeneg a Ffrangeg ar y cyd â'r cantorion sydd ar y cwrs MA Opera. Anogir datblygiad sgiliau hyfforddi drwy gysgodi hyfforddwyr yn y Coleg, gan arwain répétiteurs sy'n fyfyrwyr i ymgysylltu'n annibynnol mewn hyfforddiant a pharatoad cerddorol cantorion. Cynigir hefyd gyfleoedd ar gyfer paratoi gwaith llwyfan a chorawl, lle bo angen gweithgareddau o'r fath o fewn cynyrchiadau opera'r Coleg, ac efallai y datblygir sgiliau yr arweinydd cynorthwyol pan fo hynny'n briodol i gryfderau a diddordebau gyrfa'r myfyrwyr. Drwy gydol y modiwl bydd gofyn i'r myfyrwyr chwarae rôl lawn ym mharatoad perfformiadau opera a chorawl y Coleg, fel y penderfynir gan y Penaethiaid Perfformio Allweddellau a Pherfformio Opera.

Yn ystod *Perfformio Opera (Répétiteur) 2* bydd y myfyrwyr hefyd yn cael arweiniad gan weithwyr proffesiynol blaenllaw yn y diwydiant ar sut i baratoi a chyflwyno mewn clyweliad.

Lleoliad Proffesiynol (Répétiteur)

Credydau: 20

Asesiad: Adroddiad Mentor (60%); Beirniadaeth Fyfyriol (40%)

Trwy drafodaeth, yn unol â chynlluniau gyrfa ac anghenion dysgu unigol, bydd y myfyriwr yn treulio cyfnod estynedig (rhwng 2 a 4 wythnos) ar leoliad gyda chwmni opera yn y DU. Bydd y myfyriwr yn cysgodi aelodau staff proffesiynol ar opera a gytunir, y bydd ei sgôr wedi'i pharatoi a'i hastudio yn llawn ymlaen llaw gan y myfyriwr. Lle bo hynny'n briodol, efallai y caiff y myfyriwr chwarae ar gyfer rihysals neu gynorthwyo staff cerddoriaeth gydag unrhyw agwedd ar waith cynhyrchu opera.

Y Gweithiwr Opera Proffesiynol 2 (Répétiteur)

Credydau 20

Asesiad: Ffug Glyweliad (75%); Portffolio (25%)

Trwy'r modiwl hwn bydd myfyrwyr yn ymgysylltu mewn gwaith paratoi manwl o **rôl operatig (sgôr ar gyfer répétiteurs)** lawn o opera a ddewisir drwy drafodaeth 1:1 gydag athro ac Arweinydd y Dyfarniad. Bydd y myfyrwyr yn canolbwyntio ar gyflawni dehongliad arddulliadol clir, cywir o ran y testun ac wedi'i ddiffinio'n dda o'r sgôr cerddorfaol ar gyfer y repertoire y maent wedi'u dewis. Rhoddir arweiniad ar sut i baratoi a chyflwyno mewn clyweliad neu sesiwn weithio gyda chwmni opera proffesiynol. Cyflwynir dosbarthiadau rheoli gyrfa gan staff a/neu fentoriaid proffesiynol o'r diwydiant opera. Diben hyn fydd cefnogi'r broses gyffredinol, gan roi arweiniad mewn paratoi portffolio o ddeunydd cyhoeddusrwydd yn cynnwys gwefan. Bydd dosbarthiadau yn ailymweld â'r themâu a ymchwiliwyd yn Y Perfformiwr Cydweithredol a fydd yn galluogi myfyrwyr i ddadansoddi a myfyrwyr ar eu dull ar gyfer paratoi yn ogystal â chadarnhau eu gwybodaeth am rolau, operâu/y diwy